


Rhif: 3

Enw'r Ardal  
Cymeriad Morwedd:

Pen yr Afr i Ben y Bal



ACM3:Pen yr Afr i Ben y Bal



Edrych i gyfeiriad Bae Trefdraeth (© PCNPA)



Bae Ceibwr



Edrych i'r gogledd ddwyrain o Gareg Wylan

Disgrifiad Cryno
<p>Mae'r ardal hon yn ymestyn o'r gogledd i geg yr afon Teifi, ar hyd yr arfordir, gyda chydran o fôr i'r gorllewin i ogledd Penrhyn Dinas. Mae hwn yn ddarn weddol bellennig a diffaith o arfordir sy'n wynebu'r gogledd orllewin, gyda chlogwyni uchel godidog yn codi i uchder o 15m gydag ynysigau a bwâu, glannau creigiog ac ychydig o draethau graean bras bychain. Gellir mynd at yr arfordir o fae Ceibwr yn unig.</p>
Nodweddion Allweddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Clogwyni uchel nodedig yn codi i dros 150m AOD ac yn rhannol maent yn fertigol a chreigiog, yn rhannol yn goleddu'n serth gyda nodweddion llystyfiant allweddol.</li> <li>• Blaendraeth creigiog ysgythrog gyda bwâu yn y clogwyni ac ychydig draethau creigiog/graean bras. Mae yna ynysigau yn gorwedd yn ymyl y lan sy'n cael eu cysylltu ar lanw isel.</li> <li>• Ar ben y clogwyni mae glaswelltir ac eithin lled naturiol, gyda phorfa barhaol a gwrychoedd isel ar y llwyfandir uwchben.</li> <li>• Anheddiad yn brin iawn, gwledig a gwasgaredig ac wedi'i leoli yn ôl o'r arfordir agored.</li> <li>• Diffyg llygredd golau yn gyffredinol.</li> <li>• Gellir mynd at yr arfordir o'r tir ym Mae Ceibwr yn unig sy'n draeth bychan ond poblogaidd.</li> <li>• Siambrau claddu a dau gaer pentir ar hyd yr arfordir</li> <li>• Yr arfordir agored a chysgod cyfyngedig yn cyfyngu hwylio i fordeithio pellter hirach ac oddi ar Bae Trefdraeth. Defnyddir y môr hefyd ar gyfer caiacio a photio.</li> <li>• Mae llwybr yr arfordir ar ben y clogwyn sy'n cysylltu Trefdraeth a Llandudoch yn ymddangos yn bellennig.</li> </ul>
Dylanwadau ffisegol
<p>Mae'r pentir gogledd dwyrain-de orllewin (Foel Goch 184m aod, Foel Fach 130m aod) sy'n cynnwys cerrig llaid a thywodfeini trawiadol Ordovician, yn rhychiog gan ddyffryn afon gul drwedd i Fae Ceibwr. Mae clogwyni serth, uchel a chreigiog yn ffinio'r arfordir islaw Foel Goch, a baeau clogwyni creigiog danheddog. Yn ymyl Pen y bal sydd yn y gorllewin, mae ynysig greigiog Carreg Drywy (2m aod) yn uno ag ymyl creigiog ar hyd yr arfordir. Mae traethau ar hyd yr arfordir yn llawn clogfeini, ac mae nifer o greigiau yn dod i'r golwg gyda'r llanw. Mae'r llanw rhynglanw yn cynnwys glannau creigiog ynni uchel (91%) gyda thraethau cul graean bras a thywod (9%) neu gildraethau. Mae llinyn o graig yn ymestyn allan o'r clogwyni sy'n wynebu'r gorllewin. Mae erydu ar hyd yr arfordir yn digwydd trwy weithredu hydrologig, sgrafellu ac athreuliad.</p> <p>Mae'r gwely môr bas (&lt;30m) o dywod graeanog i raeau tywodlyd yn llawn cerrig llaid a thywodfeini Ordovician, yn goleddu'n raddol (1-10°), ac yn pasio o'r lan i dywod. Mae'r moroedd yn agored iawn i bwysau gwyntoedd uchel a thonau. Mae cerrynt rhynglanwol yn symud gogledd ddwyrain a de orllewin ar hyd yr arfordir. Mae llif y llanw yn isel yn gyffredinol. (&lt;1 knot).</p> <p>Mae pwynt dwyreiniol yr arfordir yn SSSI -yn Aberarth- Carreg Wylan ac i'r gorllewin mae clogwyni Trefdraeth. Uwchlaw'r clogwyni mae yna ddarn cul o laswelltir arfordirol a mosaig lled naturiol- ac uwchlaw hyn mae'r llwyfandir arfordirol yn borfa yn bennaf. Mae yna ddyffryn coediog cul yn rhedeg i'r mewndir o Fae Ceibwr.</p>
Dylanwadau diwylliannol
<p>Awgrymir llwybrau cyn hanesyddol gan y siambrau claddu o fewn yr ardal. Mae colli'r Morning Star o Aberystwyth ym Mae Ceredigion, ynghanol storm enwog 1859, yn arwydd o batrymau lleol masnachu ac o longdryllio yn yr ardal.</p> <p>Mae siambrau claddu yn amlwg iawn yn Nhrellyffaint a Llech y Drybedd. Mae Castelltreruffydd yn fan caeedig ar ffurf deigrin, ar lethrau arfordirol serth yn y gogledd orllewin. Mae'r cylched</p>

caeedig yn gwasanaethu i ynysu penrhyn islaw'r llethr arfordirol, yn ogystal â Charreg Yspar, yn dynn i'r lan. Awgrymwyd fod telchyn a ddarganfuwyd yn y man caeedig yn Rhufeinig. Efallai fod gefail a sefydlwyd yn 1820 yn Nhrewyddel wedi cyfrannu at fasnach arfordirol.

Mae henebion cofrestredig yn cynnwys:  
 PE211 (tir caeedig): cymuned: Nyfer  
 PE212 (caer bentir): cymuned: Nyfer  
 PE214 (caer bentir): cymuned: Nyfer

Mae'r ffurf Gymraeg ar Moelygrove, Trewyddel, yn awgrymu dylanwad Gwyddelig.

Mae yna nifer o gilfachau creigiog poblogaidd gyda chaiacwyr a badau mordeithio. Mae hwylio yn digwydd oddi ar Fae Trefdraeth, ond mewn mannau eraill mae'r pellter o ddyfroedd diogel yn cyfyngu ar hwylio achlysurol ar wahân i lwybr hwylio morol sy'n cysylltu Abergwaun a mannau i'r gogledd ar Fae Ceredigion. Mae'r un traeth y gellir mynd iddo yn Ceibwr yn safle poblogaidd i dwristiaid. Mae yna gerdded yn digwydd ar hyd Llwybr Arfordir Sir Benfro pellennig sy'n mynd ar hyd ymyl y clogwyn. Mae'r mewndir yn dir fferm pori syml agored. Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys rhwydi, corgimwch, cimwch a photio crancod ac y mae yna botensial ar gyfer treillio dwrgwn. [Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 I'r ardal ar gyfer olew a nwy a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.](#) Mae'n rhan o faes tanio Aberporth ac yn ardal ymarferion militaridd.

Mae gan yr ardal anheddiad prin a dim llygredd golau.

#### Nodweddion esthetig, canfyddiadol a phrofiadol

Arfordir garw naturiol ac ysblennydd gyda phatrymau o bentiroedd rhythmig, cilfachog a bylchau o ansawdd garw ac onglog. Mae hwn yn forwedd agored, ar raddfa fawr, gyda golygfeydd agored allan i'r môr. Mae'r lliwiau yn rhai tawel.

Mae hwn yn arfordir pellennig heb ei ddifetha lle mae'r ymdeimlad a'r ymwybyddiaeth o'r môr yn dominyddu. Mae yna ymdeimlad o berygl a chyffro ar ymyl y clogwyn, yn enwedig mewn gwyntoedd cryfion pan fydd rhywun yn gwbl agored i'r elfennau, ac mewn gwyntoedd cryfion mae'r tonnau yn taro yn erbyn y creigiau. Mae'n llonydd iawn ar ddiwrnodau mwy tawel. Mae diffyg llygredd golau yn gyffredinol yma.

Mae yna olygfeydd panoramig dros y môr ac ar hyd yr arfordir o lwybr yr arfordir, a golygfeydd llydan dros fae Trefdraeth wrth i rywun agosáu at ochr orllewinol yr ardal. Mae gan Fae Ceibwr olygfeydd ffrâm allan i'r môr.

Mae'r môr yn agored iawn i'r gwyntoedd o'r de orllewin, cerrynt llanw a môr mwy agored fyth ymhellach o'r lan er bod Trwyn Dinas yn cynnig peth cysgod ac yn dirnod cryf i gyfeiriad y gorllewin.

#### Buddion diwylliannol a gwasanaethau

Mae'r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ac adloniadol ar lun y llwybr arfordir sy'n rhoi mynediad i'r arfordir pellennig, i dreftadaeth naturiol ar lun arfordir heb ei ddifetha a chynefinoedd i adar sy'n bridio a morloi, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol mewn perthynas â chyswllt â byd natur a phellenigrwydd neu ofod i anadlu.

Rhesymau Dros Newid									
Crynodeb	Rhesymau allweddol dros newid								
<p>Erydu araf y tonnau ar arfordir creigiog agored.</p> <p>Cynllun rheoli'r traeth yn nodi rhywfaint o risg ym Mae Ceibwr gyda'r polisi o wneud dim neu ddal yn dynn. Mewn man arall yr argymhelliad yw gwneud dim.</p> <p><a href="#">Gall caniatáu trwyddedau olew a nwy arwain at bwysau i ddatblygu yn y dyfodol.</a></p> <p>Gall defnydd mwy dwys o lwybr yr arfordir arwain at erydu, er bod hwn yn ddarn mwy pellennig o lwybr yr arfordir.</p> <p>Gallai gweithgareddau amaethyddol megis codi da byw ar raddfa fechan dod yn amhroffidiol, a gallai hynny arwain at gollu tir pori a rheoli gwrychoedd.</p>	<b>Rhinweddau Arbennig</b>	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	Prosesau naturiol/newid hinsawdd	
	Ysblander yr arfordir								
	Ynysoedd								
	Amrywiaeth y Tirlun								
	Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch								
	Daeareg Amrywiol								
	Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth								
	Archaeoleg Gyfoethog								
	Cymeriad Anheddiad Nodedig								
	Treftadaeth Ddiwylliannol								
	Mynediad i'r Parc								
	Lle i Anadlu								
	<b>Allwedd</b>		Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig ddewisedig						
Sensitifeddau allweddol									
Ffactorau sy'n cyfrannu at sensitifrwydd	Ffactorau sy'n tynnu oddi wrth sensitifrwydd								
<p>Arfordir creigiog cilfachog naturiol</p> <p>Darn pellennig o arfordir heb ei ddifetha.</p> <p>Golygfeydd hir ar hyd yr arfordir a thir agored.</p> <p>Diffyg anheddiad neu fynediad trwy ffyrdd.</p> <p>Diffyg llygredd golau- ardal dywyll.</p> <p>Llwybr Arfordir Sir Benfro yn dderbynydd sensitif.</p>	Defnyddio'r ardal ar gyfer ymarfer MOD.								